**Tasg 1**

# Ffasiwn Llundain

**Blogio!**

Dychmygwch mai chi yw'r gohebydd sydd wedi mynd i Lundain ar drywydd y Cymry sy'n rhan o Wythnos Ffasiwn Llundain.

Dychmygwch mai chi, ac nid Huw Ffash, oedd yno, ond yn hytrach nag eitem ar gyfer y teledu, rhaid i chi ysgrifennu blog i gyflwyno'r hyn sydd yn y fideo.

Felly, gwyliwch y fideo eto a gwnewch nodiadau o'r hyn sy'n cael ei ddweud ac enwau'r cyfranwyr a'r dylunwyr. Meddyliwch am beth rydych chi eisiau dyfynnu a beth rydych chi am ei ddweud yn eich geiriau eich hun.

Meddyliwch am deitl bachog, dechrau difyr a diweddglo cadarn. Mynegwch eich barn, a cheisiwch ddiddanu eich darllenwyr.

Pob lwc!!

**CANLLAWIAU YCHWANEGOL:**

- **ARDDULL**: Yn wahanol i erthygl bapur newydd, mae naws mwy anffurfiol i flog – mae'n debycach i ddyddiadur. Felly dangoswch eich cymeriad, cyfarchwch eich darllenydd, ysgrifennwch yn ysgafn a rhowch eich barn yn glir.
- **STRWYTHUR**: Cadwch y strwythur yn syml. Peidiwch ag ysgrifennu brawddegau hir a rhowch baragraff newydd i bob pwynt rydych chi'n ei drafod.
- **DIWEDDGLO**: Ceisiwch gyrraedd uchafbwynt cofiadwy, gan adael y darllenydd mewn hwyliau da ar ôl darllen eich blog!